Safon ansawdd NICE ar gyfer cymorth ataliol eilaidd ar ôl cnawdnychiad myocardaidd

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2015

Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae safonau ansawdd NICE yn helpu i wella meysydd allweddol iechyd neu ofal cymdeithasol fel bod pobl yn cael cynnig y gofal gorau sydd ar gael.

Mae'r wybodaeth hon yn egluro'r gofal a'r cymorth a ddisgrifir yn safon ansawdd NICE ar gyfer cymorth ataliol eilaidd ar ôl cnawdnychiad myocardaidd (trawiad ar y galon).

Cymorth ataliol eilaidd ar ôl cnawdnychiad myocardaidd

Mae'r safon ansawdd ar gyfer cymorth ataliol eilaidd ar ôl cnawdnychiad myocardaidd (trawiad ar y galon) yn cynnwys pum datganiad sy'n disgrifio gofal o ansawdd uchel i oedolion sydd wedi cael trawiad ar y galon. Mae'r datganiadau hyn yn nodi ansawdd y gofal y dylech ei dderbyn.

1. Bydd oedolion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ar ôl cael trawiad ar y galon yn cael sgan er mwyn gweld pa mor dda y mae'r gwaed yn cael ei bwmpio drwy'r galon. Bydd hyn yn helpu gyda phenderfyniadau ynglŷn â'r math neu'r dos o driniaeth â chyffuriau a'r rhaglen wellhad sy'n briodol iddynt. Dylid cynnal y sgan cyn i'r unigolyn adael yr ysbyty.

2. Caiff oedolion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ar ôl cael trawiad ar y galon eu hatgyfeirio i raglen adsefydlu cardiaidd tra byddant yn yr ysbyty. Mae rhaglen adsefydlu cardiaidd yn cynnwys sesiynau ymarfer corff a gwybodaeth am newidiadau o ran iechyd a ffordd o fyw a sut i ymdopi â straen. Bydd hyn yn helpu i arafu neu atal clefyd y galon ac yn lleihau'r o gael trawiad ar y galon neu strôc yn y dyfodol.

3. Bydd llythyr yn cael ei anfon at feddygon teulu oedolion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty ar ôl cael trawiad ar y galon, sy'n cynnwys canlyniadau unrhyw brofion a chynllun ar gyfer eu trin a'u monitro yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod pobl yn cael y driniaeth gywir ar ôl iddynt adael yr ysbyty ac yn dechrau rhaglen i wella eu hiechyd hirdymor (adsefydlu cardiaidd) cyn gynted â phosibl.

4. Pan gaiff oedolion eu hatgyfeirio i raglen adsefydlu cardiaidd ar ôl cael trawiad ar y galon, gwneir apwyntiad iddynt gael asesiad o fewn 10 diwrnod ar ôl gadael yr ysbyty. Bydd dechrau ar y broses adsefydlu cardiaidd cyn gynted â phosibl yn annog pobl i gymryd rhan yn y rhaglen, ac yn ei gwneud yn fwy tebygol y byddant yn parhau i gymryd rhan ynddi.

5. Gall oedolion sy'n cael eu hatgyfeirio i raglen adsefydlu cardiaidd ddewis rhaglen yn ystod y dydd neu'r tu allan i oriau gwaith, a hynny mewn ysbyty, yn yr ardal leol neu gartref. Bydd cael dewis amser a lle yn golygu eu bod yn fwy tebygol o allu cymryd rhan yn y rhaglen.

Eich gofal

Dylai eich tîm iechyd a gofal cymdeithasol egluro unrhyw driniaeth, gofal neu gymorth y dylid eu cynnig i chi er mwyn i chi benderfynu ar y cyd beth sydd orau i chi. Mae NICE hefyd wedi llunio cyngor a safonau ansawdd ar wella profiad gofal i oedolion sy'n defnyddio'r GIG, y gallech fod am eu darllen.

Mae gennym hefyd ragor o wybodaeth ar wefan NICE am ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Rhagor o wybodaeth am gymorth ataliol eilaidd ar ôl cnawdnychiad myocardaidd

Mae NICE hefyd wedi cyhoeddi canllaw (cyngor) ar gymorth ataliol eilaidd ar ôl cnawdnychiad myocardaidd (trawiad ar y galon). Defnyddiwyd y canllaw i ddatblygu'r safon ansawdd hon.

Ffynonellau cyngor a chymorth i bobl sydd wedi cael trawiad ar y galon, i'w teuluoedd ac i'w gofalwyr

- Sefydliad Prydeinig y Galon, 0300 330 3311, www.bhf.org.uk
- Cymdeithas Cleifion Cardiaidd Prydain, 01223 846 845, www.bcpa.co.uk
- HEART UK, 0345 450 5988, www.heartuk.org.uk

Gallwch hefyd fynd i wefan NHS Choices i gael rhagor o wybodaeth am iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae nifer o sefydliadau sy'n rhannu ymrwymiad NICE i wella ansawdd yn y maes hwn yn cefnogi'r safon ansawdd hon yn ffurfiol. Efallai y gallant hefyd ddarparu cyngor a chymorth. I gael rhestr o'r sefydliadau hyn, gweler y trosolwg o'r safon ansawdd ar gyfer cymorth ataliol eilaidd ar ôl cnawdnychiad myocardaidd (trawiad ar y galon).

Nid yw NICE yn gyfrifol am ansawdd na chywirdeb unrhyw wybodaeth neu gyngor a roddir gan y sefydliadau hyn.

ISBN: 978-1-4731-1500-2